sir ddinbych denbighshire
Cyngor County Council



# Asesiad o Anghenion Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Dros Dro Cyngor Sir Ddinbych 2024

# Cynnwys


Cynnwys ........ 2

Beth yw toiled cyhoeddus? ........ 4

Y fethodoleg ar gyfer asesu'r angen am doiledau cyhoeddus yn Sir Ddinbych ........ 5

Asesu angen yn ôl cymuned a'r boblogaeth ymwelwyr ........ 10

Y Rhyl ........ 11

Prestatyn ........ 12

Rhuddlan ........ 13

Llanelwy ........ 13

Dinbych ........ 14

Rhuthun ........ 15

Llangollen ........ 16

Corwen ........ 16

Crynodeb o ddarpariaeth bresennol y Cyngor Sir ........ 18

Y Rhyl ........ 19

Prestatyn ........ 20

Dyserth ........ 21

Rhuddlan ........ 21

Llanelwy ........ 22

Dinbych ........ 22

Rhuthun ........ 23

Llangollen ........ 24

Corwen ........ 25


DRAFT

## Cyflwyniad

Yn unol â gofynion Rhan 8 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, mae gofyn i ni ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Cyhoeddus.

Dylai'r Strategaeth nodi sut rydym yn asesu'r angen am doiledau cyhoeddus yn Sir Ddinbych, a sut byddwn yn rheoli'r angen hwn.

**Sylwch:** Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor ei hun ddarparu toiledau cyhoeddus, fodd bynnag, mae gofyn i'r Cyngor:

1. Ddarparu tystiolaeth ei fod wedi adolygu anghenion y boblogaeth leol
2. Datblygu Strategaeth yn dangos sut bodlonir yr anghenion hyn ar hyn o bryd ac i'r dyfodol, er enghraifft, drwy Gynlluniau Toiledau Cymunedol.

Defnyddir yr asesiad hwn i helpu'r Cyngor i ddatblygu ei Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer 2024-2026.

Byddwn yn darparu:

1. Diffiniadau o'r hyn a ystyrir yn doiled cyhoeddus
2. Amlinelliad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym i nodi pa gymunedau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asesiad o anghenion
3. Crynodeb o'r angen am doiled ym mhob cymuned sydd â thoiledau cyhoeddus sy'n eiddo i neu'n cael eu gweithredu gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd, a/neu sydd wedi cael eu hasesu gennym fel rhai sydd angen darpariaeth toiled cyhoeddus.

Byddwn yn cynnal asesiad o anghenion llawn cyn adolygu'r Strategaeth nesaf yn 2026.

**Sylwer:** bydd toiledau cyhoeddus mewn rhai cymunedau yn Sir Ddinbych nad ydynt yn bodloni'r meini prawf asesu i gael eu cynnwys yn strategaeth toiledau cyhoeddus y Cyngor. Byddwn yn cynnwys y toiledau hyn yn ein hasesiad o'r ddarpariaeth bresennol, fodd bynnag, byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel toiledau cyhoeddus 'ychwanegol' ac ni fyddant yn cael effaith ar y ffordd y caiff cymunedau eu hasesu.

DRAFT

## Beth yw toiled cyhoeddus?

Cyfleusterau toiled y gall y cyhoedd eu defnyddio yw toiledau cyhoeddus (a elwir weithiau yn gyfleustodau cyhoeddus). Gall y rhain gynnwys blociau toiledau pwrpasol, neu doiledau o fewn adeiladau presennol megis swyddfeydd, siopau, gwestai a bwytai.

Gellir codi tâl am ddefnyddio toiledau cyhoeddus, ond i gael eu hystyried fel toiled cyhoeddus, ni fydd unrhyw ffioedd eraill cysylltiedig. Er enghraifft, ystyrir toiled mewn caffi lle gofynnir i chi brynu diod neu fwyd cyn defnyddio'r toiled fel toiled preifat i gwsmeriaid yn hytrach na thoiled cyhoeddus.

DRAFT

## Y fethodoleg ar gyfer asesu'r angen am doiledau cyhoeddus yn Sir Ddinbych

Y fethodoleg yr ydym yn bwriadu ei defnyddio yw ystyried y 'gymhareb doiledau' ym mhob cymuned yn Sir Ddinbych, ac yna defnyddio'r ystyriaethau ychwanegol o'r Canllawiau Statudol (a restrir ar y dudalen nesaf). Yna, byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd, cynghorau tref a chymuned lleol, ac ystod o sefydliadau elusennol a thrydydd sector i weld a yw pobl yn cytuno gyda'n dadansoddiad o angen, a nodi unrhyw bryderon neu anghenion ychwanegol na ellir eu bodloni drwy groesgyfeirio data ystadegol yn unig.

**Dadansoddi ystadegol: pa gymunedau sydd angen toiledau cyhoeddus?**

Y cam cyntaf i asesu anghenion lleol yw dadansoddi data presennol a'i groesgyfeirio gyda'r hyn yr ydym yn ei wybod am y ddarpariaeth toiledau lleol presennol.

I wneud hyn, byddwn yn defnyddio 'cymarebau toiledau'. Ystyr hyn yw nifer y toiledau cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer nifer benodol o bobl yn y boblogaeth leol. Darperir yr argymhellion canlynol ar asesu cymarebau toiledau gan y corff gwobrwyo Loo of the Year Awards [1]:

- Dylid darparu o leiaf un cyfleuster toiled ym mhob setliad sydd â phoblogaeth o dros 5000 o bobl.
- Mewn canol trefi ac ardaloedd twristaidd, dylid sicrhau bod toiledau o fewn pellter cerdded byr, yn ddelfrydol, o fewn 300m i ardaloedd prysur ac o fewn 500m i ganol trefi cyffredinol.
- Dylai canol trefi mawr, canolfannau cludiant ac atyniadau i ymwelwyr gynnwys o leiaf un toiled 'Lleoedd Newid'.
- Merched = 1 ciwbicl fesul 550 o ferched a genethod.
- Dynion = 1 ciwbicl neu droethfa fesul 1,100 o ddynion neu fechgyn.
- 1 ciwbicl hygyrch neillryw ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth.
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw ar gyfer bob 10,000 o'r boblogaeth.

---

[1] https://www.loo.co.uk/46/Toilet-Ratios (mynediad diwethaf 12 Ionawr 2024)

Mae'r Canllawiau Statudol (a gyhoeddwyd yn 2018) ar gyfer datblygu Strategaethau Toiledau Lleol yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol ystyried ystod o ffactorau wrth asesu'r angen am doiledau cyhoeddus.  Byddwn yn nodi sut rydym yn bwriadu asesu pob ffactor, ynghyd â'r cymarebau toiledau a amlinellwyd ar y dudalen flaenorol:

1. **Asesiad o'r boblogaeth leol, gan gynnwys oedran, rhywedd ac anghenion ychwanegol y boblogaeth o ran iechyd:**
   Byddwn yn defnyddio'r cynsail o 1 ciwbicl fesul 550 o ferched ac 1 ciwbicl fesul 1100 o ddynion, gan ystyried:
   a. 1 ciwbicl ychwanegol i ferched ac 1 ciwbicl ychwanegol i ddynion, pan fo oedran canolrifol y gymuned honno'n fwy na'r oedran cyfartalog yng Nghymru o 43.1 mlwydd oed.
   b. 1 ciwbicl anabl ychwanegol ar gyfer bob 5% sy'n uwch na'r ganran gyfartalog o'r boblogaeth yng Nghymru sydd ag anabledd, sef 21.1%.

2. **Asesiad o gydbwysedd y ddarpariaeth bresennol o ran rhywedd**
   Byddwn yn defnyddio'r canllawiau cymarebau toiledau presennol i asesu cydbwysedd y ddarpariaeth doiledau o ran rhywedd (o leiaf 1 toiled ar gyfer bob 550 o ferched a 1100 o ddynion yn y boblogaeth leol)

3. **Asesiad o leoliadau, gan gynnwys cyrchfannau poblogaidd a'r pellter rhwng cyfleusterau;**
   Byddwn yn defnyddio'r canllawiau cymarebau toiledau presennol i asesu p'un a oes toiledau o fewn 300m o ganol pob cymuned sydd â phoblogaeth o dros 5000 o bobl, ac o fewn 500 metr o faes parcio cyhoeddus mewn lleoliadau prysur eraill.

4. **Asesiad o argaeledd a hygyrchedd, oriau agor, defnydd**
   Nid oes unrhyw ffordd o asesu'r defnydd o bob toiled cyhoeddus a gaiff eu rheoli gan y Cyngor ar hyn o bryd, fodd bynnag, gallwn amcangyfrif y defnydd mewn toiledau sy'n codi ffioedd yn seiliedig ar yr incwm a dderbynnir.  Pan fyddwn yn archwilio'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus gan ddarparwyr eraill

(e.e. canolfannau siopau, archfarchnadoedd) fel rhan o'n hasesiad trylwyr o anghenion, rydym yn anelu at ddeall eu hargaeledd a'u defnydd lle bynnag y bo modd.

5. **Ffioedd, mynediad i bobl anabl, Lleoedd Newid a chyfleusterau newid babanod**

Mae 10 allan o 20 o doiledau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn codi 40c o dâl mynediad. Cynigir mynediad am ddim i 10 o'n toiledau.

Gellir dod o hyd i grynodeb manwl o oriau agor, nifer y ciwbiclau anabl neillryw a chyfleusterau newid babanod a ddarperir gan y Cyngor ar hyn o bryd (hyd at fis Ebrill 2024) mewn dogfen ar wahân o'r enw ***Asesiad Portffolio Cyfleusterau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych 2024***

Toiledau y gall pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog eu defnyddio yw Lleoedd Newid. Bydd mwy o le yn y toiledau hyn o'i gymharu â thoiled anabl 'safonol', a bydd cyfarpar ychwanegol wedi'u gosod ynddynt megis teclynnau codi a symud, byrddau newid oedolion, cawodydd a chanllawiau.

O ran yr angen am doiledau Lleoedd Newid, ni ddarperir diffiniad clir o 'ganolbwynt pwysig' gyda'r canllawiau cymarebau toiledau, fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad o Anghenion hwn, bydd y Cyngor yn defnyddio'r diffiniad canlynol:

a. Cymuned gyda phoblogaeth breswylwyr o dros 10,000 o bobl **neu**
b. Cymuned sy'n derbyn mwy na 10,000 o ymweliadau dydd yr wythnos

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o 2 x doiled lleoedd newid yn y sir ar hyn o bryd:

- Ysbyty Glan Clwyd – gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Changing Places:
  Ysbyty Glan Clwyd | Changing Places Toilet
- Archfarchnad Tesco Prestatyn - gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Changing Places:
  Tesco Prestatyn | Changing Places Toilet

DRAFT

6. **Asesiad o gyflwr y cyfleusterau presennol**
   Byddwn yn asesu cyfleusterau a ddarperir gan y Cyngor ac unrhyw gyfleusterau sy'n rhan o'r cynllun toiledau cymunedol. Ni fyddwn yn asesu cyflwr y cyfleusterau nad ydynt yn eiddo i neu'n cael eu cynnal gan y Cyngor ac nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Toiledau Cymunedol.

7. **Ystyriaeth i amrywiadau tymhorol, gan gynnwys digwyddiadau lleol a thwf tymhorol yn y boblogaeth**
   Wrth ystyried amrywiadau tymhorol, byddwn yn defnyddio Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough i ystyried nifer yr ymwelwyr.
   Nid oes gennym ffordd gryno o asesu anghenion ymwelwyr yn erbyn anghenion preswylwyr, ond fe ddylai haneru'r gymhareb toiledau a argymhellir, sef o leiaf 1 cyfleuster fesul 5,000 o'r boblogaeth, er mwyn sicrhau bod o leiaf 1 cyfleuster fesul 2,500 o ymwelwyr yr wythnos yn ogystal â'r cymarebau toiledau preswylwyr, sicrhau darpariaeth ddigonol. Felly, drwy asesu ymweliadau dydd, rydym yn cynnig sicrhau bod o leiaf 2 giwbicl i ferched, 1 ciwbicl i ddynion, 1 cyfleuster anabl ac 1 cyfleuster newid babanod ychwanegol fesul 2,500 o ymwelwyr bob wythnos (fel cyfartaledd blwyddyn gyfan).

8. **Ystyriaeth i ffactorau cymdeithasol megis a yw cyfleusterau'n darged ar gyfer camddefnydd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol neu a fernir eu bod mewn lle peryglus**
   Ar gyfer asedau Cyngor Sir Ddinbych, byddwn yn defnyddio adroddiadau staff a cheisiadau gwasanaethau i gwsmeriaid a dderbynnir drwy ffurflen C360 y Cyngor i asesu cynaliadwyedd toiledau cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd o ran eu defnydd i'r dyfodol (p'un a yw hynny gan y Cyngor neu gan gorff neu sefydliad arall).
   Ar y cam hwn, nid ydym yn cynnwys asesiad o doiledau cyhoeddus eiddo preifat megis toiledau mewn archfarchnadoedd, y math o ganolfannau gwasanaeth a geir ar draffyrdd ac ati, fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud hyn mewn adolygiadau o'r ddarpariaeth o fewn y sir i'r dyfodol.

DRAFT

9. **Ystyriaeth i ofynion yn y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol**
 Disgwylir ar hyn o bryd i'r Strategaeth gael ei hadolygu bob 2 flynedd. Yn yr hirdymor, bydd y Cyngor yn ceisio gweithio gyda darparwyr preifat toiledau cyhoeddus i adolygu mynediad at doiledau cyhoeddus a sicrhau fod anghenion yn cael eu bodloni ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

10. **Ystyriaeth i ystadegau mewn perthynas ag ystadegau'r boblogaeth; mesurau amddifadedd ac amcanestyniadau ar gyfer y ddemograffeg megis pobl hŷn, plant, hawlwyr budd-daliadau ac ati**
 Mae ystadegau'r boblogaeth eisoes wedi cael eu hystyried ar lefel 'plwyf' wrth bennu cymarebau toiledau. Yn y tymor byr, bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn darpariaeth toiledau cyhoeddus ar draws Sir Ddinbych ar hyn o bryd, ac yn yr hirdymor, bydd yn ceisio deall pa effaith fydd poblogaeth sy'n newid yn ei chael ar ddefnydd toiledau

11. **Dadansoddiad o ddefnydd presennol, gan gynnwys amseroedd poblogaidd, asesiad o'r boblogaeth, ac ymwelwyr dros dro megis gyrwyr faniau a lorïau neu'r sawl sy'n teithio ar fysiau**
 Fel y nodwyd eisoes, nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych gyfleusterau monitro nifer yr ymwelwyr yn unrhyw un o'r portffolios cyfredol, fodd bynnag, gellir defnyddio'r incwm a dderbynnir mewn toiledau sy'n codi tâl i gyfrifo cyfanswm yr ymweliadau â'r toiledau hyn. Bydd yr asesiad o'r boblogaeth yn cynnwys y boblogaeth breswylwyr o ddata Marchnad Llafur NOMIS a data STEAM y llynedd i asesu'r angen tymor byr.

DRAFT

## Asesu angen yn ôl cymuned a'r boblogaeth ymwelwyr

Bydd yr asesiad hwn yn defnyddio data ystadegol o wefan Marchnad Llafur NOMIS, a data twristiaeth STEAM a ddarparwyd i Gyngor Sir Ddinbych i asesu'r angen sylfaenol am gyfleusterau toiledau ym mhob un o brif drefi Sir Ddinbych.

DRAFT

## Y Rhyl

**Angen preswylwyr:**

- 12,777 o ferched - mae angen 24 o giwbiclau merched
- 12,372 - mae angen 13 o giwbiclau dynion
- Mae 18% o boblogaeth Y Rhyl dros 65 oed, 2.7% is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru - felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth hŷn
- Mae gan 39.4% o aelwydydd y Rhyl o leiaf un unigolyn ag anabledd, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 21.1% - mae angen 3 toiled anabl i fodloni'r argymhelliad cyffredinol o 1 fesul 10,000 o'r boblogaeth, a 4 toiled ychwanegol ar gyfer bob 5% o'r boblogaeth dros gyfartaledd Cymru sydd ag anabledd. Mae angen cyfanswm o 7 toiled anabl
- Mae angen o leiaf 3 cyfleuster newid babanod (o leiaf 1 fesul 10,000 o'r boblogaeth)
- Mae 6.7% o boblogaeth Y Rhyl o dan 4 oed, 1.8% yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru. Felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth iau
- Mae angen o leiaf 1 toiled Lleoedd Newid

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 23,423 o ymwelwyr yr wythnos (1,218,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 19 ciwbicl merched, 10 ciwbicl dynion, 2 gyfleuster newid anabl a 2 gyfleuster newid babanod

**CYFANSWM ANGEN:**

- 43 ciwbicl merched
- 23 ciwbicl dynion
- 9 cyfleuster anabl
- 5 cyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

DRAFT

## Prestatyn

**Angen preswylwyr:**

- 9,827 o ferched - mae angen 18 o giwbiclau merched
- 9,022 - mae angen 9 o giwbiclau dynion
- Mae 24.5% o boblogaeth Prestatyn dros 65 oed, 3.2% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru - felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth hŷn
- Mae gan 32.7% o aelwydydd Prestatyn o leiaf un unigolyn ag anabledd, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 21.1% - mae angen 1 toiled anabl i fodloni'r argymhelliad cyffredinol o 1 fesul 10,000 o'r boblogaeth, a 4 toiled ychwanegol ar gyfer bob 5% o'r boblogaeth dros gyfartaledd Cymru sydd ag anabledd. Mae angen cyfanswm o 4 toiled anabl
- Mae angen o leiaf 1 cyfleuster newid babanod (o leiaf 1 fesul 10,000 o'r boblogaeth)
- Mae 5.7% o boblogaeth Prestatyn o dan 4 oed, 0.8% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth iau
- Mae angen o leiaf 1 toiled Lleoedd Newid

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 19,365 o ymwelwyr yr wythnos (1,007,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 15 ciwbicl merched, 8 ciwbicl dynion, 2 gyfleuster newid anabl a 2 gyfleuster newid babanod

**CYFANSWM ANGEN:**

- 33 ciwbicl merched, 17 ciwbicl dynion
- 6 cyfleuster anabl
- 3 cyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

DRAFT

## Rhuddlan

**Angen preswylwyr:**

Mae gan Ruddlan boblogaeth o 3,709 felly nid oes angen cyfleuster toiledau ar gyfer preswylwyr yn y lleoliad hwn.

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 2,288 o ymwelwyr yr wythnos (119,000 dros y flwyddyn gyfan)

**CYFANSWM ANGEN:**

- Nid oes angen diffiniedig i'r gymuned hon gael cyfleusterau toiledau

## Llanelwy

**Angen preswylwyr:**

Mae gan Lanelwy boblogaeth o 3,355 felly nid oes angen cyfleuster toiledau ar gyfer preswylwyr yn y lleoliad hwn.

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 2,365 o ymwelwyr yr wythnos (123,000 dros y flwyddyn gyfan)

**CYFANSWM ANGEN:**

- Nid oes angen diffiniedig i'r gymuned hon gael cyfleusterau toiledau

DRAFT

## Dinbych

**Angen preswylwyr:**

- 4,523 o ferched - mae angen 9 o giwbiclau merched
- 4,463 - mae angen 4 o giwbiclau dynion
- Mae 17.2% o boblogaeth Dinbych dros 65 oed, 4.1% yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru - felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth hŷn
- Mae 29.6% o aelwydydd yn Ninbych yn cynnwys o leiaf un unigolyn ag anabledd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 21.1%. Gan mai'r argymhelliad cyffredinol yw 1 toiled anabl fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn argymell 1 toiled anabl ychwanegol ar gyfer bob 5% o'r boblogaeth dros gyfartaledd Cymru sydd ag anabledd, mae angen cyfanswm o 1 toiled anabl yn Ninbych.
- Mae 6% o boblogaeth Dinbych o dan 4 oed, 1.9% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth iau
- Nid oes angen cyfleusterau newid babanod gan fod y boblogaeth yn llai na 10,000
- Nid oes angen cyfleusterau lleoedd newid gan fod y boblogaeth yn llai na 10,000

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 5,923 o ymwelwyr yr wythnos (308,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 4 ciwbicl merched, 2 giwbicl dynion, 2 gyfleuster newid anabl a 2 gyfleuster newid babanod

**CYFANSWM ANGEN:**

- 13 ciwbicl merched
- 6 ciwbicl dynion
- 3 cyfleuster anabl
- 2 gyfleuster newid babanod

DRAFT

## Rhuthun

**Angen preswylwyr:**

- 2,800 o ferched - mae angen 5 o giwbiclau merched
- 2,661 - mae angen 3 o giwbiclau dynion
- Mae 21.8% o boblogaeth Rhuthun dros 65 oed, 0.5% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru - felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth hŷn
- Mae 27.3% o aelwydydd yn Rhuthun yn cynnwys o leiaf un unigolyn ag anabledd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 21.1%. Gan mai'r argymhelliad cyffredinol yw 1 toiled anabl fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn argymell 1 toiled anabl ychwanegol ar gyfer bob 5% o'r boblogaeth dros gyfartaledd Cymru sydd ag anabledd, mae angen cyfanswm o 1 toiled anabl yn Rhuthun.
- Nid oes angen cyfleusterau newid babanod gan fod y boblogaeth yn llai na 10,000
- Mae 6% o boblogaeth Rhuthun o dan 4 oed, 1.9% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Felly nid oes angen cyfleusterau ychwanegol yn seiliedig ar boblogaeth iau
- Nid oes angen cyfleusterau lleoedd newid gan fod y boblogaeth yn llai na 10,000

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 4,788 o ymwelwyr yr wythnos (249,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 2 giwbicl merched, 1 ciwbicl dynion, 1 cyfleuster newid anabl ac 1 cyfleuster newid babanod

**CYFANSWM ANGEN:**

- 7 ciwbicl merched
- 4 ciwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl
- 1 cyfleuster newid babanod

DRAFT

## Llangollen

**Angen preswylwyr:**

Mae gan Langollen boblogaeth o 3,658 felly nid oes angen cyfleuster toiledau ar gyfer preswylwyr yn y lleoliad hwn.

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 5,269 o ymwelwyr yr wythnos (274,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 4 ciwbicl merched, 2 giwbicl dynion, 2 gyfleuster newid anabl a 2 gyfleuster newid babanod

**CYFANSWM ANGEN:**

- 4 ciwbicl merched
- 2 giwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl
- 2 gyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

## Corwen

**Angen preswylwyr:**

Mae gan Gorwen boblogaeth o 2,325 felly nid oes angen cyfleuster toiledau ar gyfer preswylwyr yn y lleoliad hwn.

**Angen ymwelwyr:**

- Niferoedd ymwelwyr dydd cyfartalog yn 2022 = 3,000 o ymwelwyr yr wythnos (156,000 dros y flwyddyn gyfan)
- Mae angen ychwanegol am 2 giwbicl merched, 1 ciwbicl dynion, 1 cyfleuster newid anabl ac 1 cyfleuster newid babanod

DRAFT

**CYFANSWM ANGEN:**

- 2 giwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster anabl
- 1 cyfleuster newid babanod

DRAFT

## Crynodeb o ddarpariaeth bresennol y Cyngor Sir

Fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Strategaeth a'r asesiad o anghenion cysylltiedig, byddwn yn anelu at ddarparu asesiad o'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus gan ddarparwyr eraill.

At ddibenion yr asesiad o anghenion hwn, byddwn ond yn asesu'r ddarpariaeth toiledau sy'n eiddo i neu'n cael eu gweithredu gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd (hyd at Ebrill 2024)

Mae crynodeb llawn o'r ddarpariaeth yn ôl tref ar gael mewn dogfen ar wahân o'r enw *Asesiad Portffolio Toiledau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych.*

DRAFT

## Y Rhyl

Aseswyd anghenion y Rhyl fel a ganlyn:

- 43 ciwbicl merched
- 23 ciwbicl dynion
- 9 cyfleuster anabl
- 5 cyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

Ar draws bob lleoliad yn y Rhyl, mae:

- 30 ciwbicl merched
- 10 ciwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl, gyda dau arall wedi'u digomisiynu gan fod rhannau wedi cyrraedd diwedd eu hoes
- 1 toiled neillryw
- 3 cyfleuster newid babanod yn y toiledau merched, 2 gyfleuster newid babanod yn y toiledau dynion

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae'r diffyg toiledau cyhoeddus yn y Rhyl fel a ganlyn felly:

- 13 ciwbicl merched
- 13 ciwbicl dynion
- 7 cyfleuster anabl neillryw
- Mae digon o gyfleusterau newid babanod ar draws toiledau'r ddau ryw, fodd bynnag, dylid ystyried rhoi darpariaeth gyfartal o gyfleusterau newid babanod mewn cyfleusterau neillryw/niwtral o ran rhywedd, neu ar draws cyfleusterau'r ddau ryw
- Mae angen o leiaf un toiled Lleoedd Newid yn y Rhyl.

DRAFT

## Prestatyn

Aseswyd anghenion Prestatyn fel a ganlyn:

- 33 ciwbicl merched
- 17 ciwbicl dynion
- 9 cyfleuster anabl
- 3 cyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

Ar draws bob lleoliad yn ym Mhrestatyn, mae:

- 33 ciwbicl merched
- 7 ciwbicl dynion
- 3 cyfleuster anabl, gydag un arall wedi'i ddigomisiynu gan fod rhannau wedi cyrraedd diwedd eu hoes
- 2 gyfleuster toiled neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod mewn toiledau merched
- Mae toiled Lleoedd Newid yn archfarchnad Tesco Prestatyn

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae'r diffyg toiledau cyhoeddus ym Mhrestatyn fel a ganlyn felly:

- 21 ciwbicl merched
- 10 ciwbicl dynion
- 6 cyfleuster anabl neillryw
- 3 cyfleuster newid babanod neillryw

DRAFT

## Dyserth

Ni nodwyd bod angen toiledau cyhoeddus yn Nyserth yn seiliedig ar ddata'r boblogaeth breswylwyr. Nid oes data twristiaeth STEAM ar gael ar gyfer Dyserth, ac felly mae'r Cyngor o'r farn nad yw'n debygol y bydd angen tymhorol difrifol am doiledau cyhoeddus ychwaith.

Yn Nyserth mae:

- 1 ciwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae mwy o doiledau cyhoeddus yn Nyserth na'r angen lleol amdanynt.

## Rhuddlan

Ni nodwyd bod angen toiledau cyhoeddus yn Rhuddlan yn seiliedig ar ddata'r boblogaeth breswylwyr. Nid oes data twristiaeth STEAM ar gael ar gyfer Rhuddlan, ac felly mae'r Cyngor o'r farn nad yw'n debygol y bydd angen tymhorol difrifol am doiledau cyhoeddus ychwaith.

Yn Rhuddlan mae:

- 2 giwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion
- 1 ciwbicl anabl neillryw

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae mwy o doiledau cyhoeddus yn Rhuddlan na'r angen lleol amdanynt.

DRAFT

## Llanelwy

Ni nodwyd bod angen toiledau cyhoeddus yn Llanelwy yn seiliedig ar ddata'r boblogaeth breswylwyr. Ar gyfartaledd dros y flwyddyn gyfan, mae data twristiaeth STEAM Llanelwy yn awgrymu nad oes digon o bobl yn ymweld â'r ddinas i fod angen toiledau cyhoeddus.

Yn Llanelwy mae:

- 2 giwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion
- 1 ciwbicl anabl neillryw

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae mwy o doiledau cyhoeddus yn Llanelwy na'r angen lleol amdanynt.

## Dinbych

Aseswyd anghenion Dinbych fel a ganlyn:

- 13 ciwbicl merched
- 6 ciwbicl dynion
- 3 cyfleuster anabl
- 2 gyfleuster newid babanod

Yn Ninbych mae:

- 4 ciwbicl merched
- 3 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster anabl neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae'r diffyg toiledau cyhoeddus yn Ninbych fel a ganlyn felly:

DRAFT

- 9 ciwbicl merched
- 3 ciwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw

## Rhuthun

Aseswyd anghenion Rhuthun fel a ganlyn:

- 7 ciwbicl merched
- 4 ciwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl
- 1 cyfleuster newid babanod

Yn Rhuthun mae:

- 2 giwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster neillryw
- 1 cyfleuster anabl neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae'r diffyg toiledau cyhoeddus yn Rhuthun fel a ganlyn felly:

- 5 ciwbicl merched
- 3 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster anabl neillryw

DRAFT

## Llangollen

Aseswyd anghenion Llangollen fel a ganlyn:

- 4 ciwbicl merched
- 2 giwbicl dynion
- 2 gyfleuster anabl neillryw
- 2 gyfleuster newid babanod
- 1 toiled Lleoedd Newid

Yn Llangollen mae:

- 10 ciwbicl merched
- 3 giwbicl dynion
- 1 cyfleuster neillryw
- 1 cyfleuster anabl neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw, ac 1 cyfleuster newid babanod o fewn cyfleusterau merched

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, mae'r diffyg toiledau cyhoeddus yn Llangollen fel a ganlyn felly:

- 1 cyfleuster anabl neillryw
- 1 cyfleuster newid babanod neillryw
- 1 toiled Lleoedd Newid

DRAFT

## Corwen

Aseswyd anghenion Corwen fel a ganlyn:

- 2 giwbicl merched
- 1 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster anabl
- 1 cyfleuster newid babanod

Yng Nghorwen mae:

- 6 giwbicl merched
- 6 ciwbicl dynion
- 1 cyfleuster anabl neillryw
- 2 cyfleuster newid babanod

Yn seiliedig ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn unig, caiff yr angen am doiledau cyhoeddus yng Nghorwen ei bodloni o ran cyfanswm y ciwbiclau.

DRAFT